

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol ac Archwilio

Dyddiad: 14 Tachwedd 2019

Rhif Union: 01824706204

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO, DYDD MERCHER, 20 TACHWEDD 2019** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYN**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Medi 2019 (copi ynghlwm).

### **5 AROLYGIAETH GOFAL CYMRU - ADOLYGIAD PERFFORMIAD AWDURDOD LLEOL** (Tudalennau 17 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, sy'n rhoi'r diweddaraf am Adolygiad Perfformiad Awdurdod Lleol Arolygiaeth Gofal Cymru (copi wedi'i amgáu)

- 6 ADRODDIAD DIOGELU** (Tudalennau 25 - 40)  
Ystyried adroddiad ar adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried a oes angen craffu ymhellach (copi wedi'i amgáu)
- 7 AROLYGIAETH GOFAL CYMRU - AROLYGU GWASANAETHAU OEDOLION HYN** (Tudalennau 41 - 70)  
Derbyn adroddiad ynghylch arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Oedolion Hŷn Cyngor Sir Dinbych; canfyddiadau allweddol a chamau gweithredu cysylltiedig (copi wedi'i amgáu)
- 8 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL - DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN GWELLA** (Tudalennau 71 - 76)  
Derbyn adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol sy'n rhoi diweddariad ar y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gwella llywodraethu sydd wedi'i gynnwys yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19 (copi wedi'i amgáu)
- 9 DIWEDDARIAD AR Y GYLLIDEB** (Tudalennau 77 - 84)  
Derbyn adroddiad yn ymwneud â phroses y gyllideb gyfredol ar gyfer 2020/21 a'r rhagdybiaethau cynllunio ariannol tymor canolig allweddol (copi wedi'i amgáu)
- 10 IECHYD A DIOGELWCH MEWN YSGOLION - DIWEDDIAD ARCHWILIO** (Tudalennau 85 - 104)  
Derbyn adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol ar sut mae'r cyngor ac ysgolion yn gweithredu gwelliant o ran 'Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion' (copi wedi'i amgáu)
- 11 ADRODDIAD UNIGOLION CYFRIFOL - GWASANAETHAU RHEOLEDIG** (Tudalennau 105 - 108)  
Derbyn y diweddaraf am adroddiad Unigolion Cyfrifol y Gwasanaethau Rheoledig (copi wedi'i amgáu)
- 12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 109 - 112)  
Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cyngorwyr**

Mabon ap Gwynfor  
Tony Flynn  
Martyn Holland

Alan James  
Barry Mellor  
Joe Welch

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1A, Neuadd Y Sir, Ruthun, Dydd Mercher, 11 Medi 2019 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Tony Flynn, Alan James a Joe Welch

Aelod Lleyg Paul Whitham

Roedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol a'r Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth yn bresennol.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Y Prif Gyfrifydd (SG), y Prif Archwilydd Mewnol (LL), Uwch Archwilydd (LH), Archwilydd (SW), Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (GL), Rheolwr Cefnogi a Datblygu Aelodau (EW), Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (EH), Gweinyddwr Pwyllgorau (RTJ).

Cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru – Matthew Edwards a Gareth Edwards

### PENODI CADEIRYDD

Agorodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y cyfarfod drwy alw am benodi cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn absenoldeb cadeirydd ac is-gadeirydd. Cynigodd y Cynghorydd Tony Flynn fod y Cynghorydd Joe Welch yn cadeirio'r cyfarfod, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Alan James. Cytunodd pawb oedd yn bresennol ar i'r Cynghorydd Joe Welch gadeirio'r pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** – *fod y Cynghorydd Joe Welch yn cael ei benodi fel cadeirydd i lenwi'r bwlch ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.*

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Barry Mellor a Martyn Holland.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol -

Y Cynghorwyr Joe Welch a Mabon ap Gwynfor – eitem rhif 6 ar y rhaglen – gan fod ganddynt blant oedd yn mynychu ysgolion yn Sir Ddinbych.

Yr Aelod Lleyg Paul Whitham – eitem rhif 6 ar y rhaglen – gan fod ganddo wyrion a wyresau yn mynychu ysgolion yn Sir Ddinbych.

### **3 MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### **4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2019.

Materion yn codi -

- Holwyd p’run ai a oedd y llythyr gan Llywodraethu Corfforaethol i benaethiaid a chadeiryddion y cyrff llywodraethu wedi ei ddsbarthu. Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y pwyllgor nad oedd y llythyr wedi ei ddsbarthu gan ei fod yn y broses o gael ei brawf ddarllen ond y byddai’n cael ei ddsbarthu unwaith y byddai wedi ei gwblhau'n derfynol.
- Holwyd eto ynglŷn â diffyg ysgolion, ceisiwyd eglurder ynglŷn â sut y caiff diffygion eu talu. Dywedodd y prif gyfrifydd fod yna gronfeydd wrth gefn mewn grym i dalu am ddiffygion.
- Defnyddiwyd adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a’r term ‘brysiog’ ar gyfer y Model Darparu Amgen a p’run ai a oedd yn derm a gâi ei ddefnyddio’n aml. Wrth ymateb hysbysodd swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru y pwyllgor nad oedd y Model Darparu Amgen yn benderfyniad brysiog.

***PENDERFYNWYD*** y dylid cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2019 fel cofnod cywir.

### **5 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (CIA) yr adroddiad diweddar Archwilio Mewnol (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn rhoi diweddariad i’r aelodau ar gynnydd Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth sbarduno gwelliant.

Mae’r adroddiad yn darparu gwybodaeth am waith yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Arweiniodd y Prif Archwilydd Mewnol yr aelodau drwy’r adroddiadau a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf hyd at 28 Awst 2019 ar:

- Adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynwyd yn ddiweddar
- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd ers y diweddariad diwethaf:
- Gwasanaethau Ariannol - 2018-19
- Seiber Ddiogelwch
- Rheoli Prosiectau a Rhaglenni
- Llywodraethwyr Ysgol
- Cyllidebau Cymorth a Thaliadau Uniongyrchol



- Cyn Ysbyty Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Cyfreithiol yn Gweithio ar y Cyd
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- Gwrth-dwyll, nid oedd unrhyw atgyfeiriadau wedi bod ers y diweddariad diwethaf o ran archwilio.
- Ceisiwyd cael dyddiadau hyfforddi ar gyfer dyddiadau rheoli rhaglenni yn ogystal â dyddiadau hyfforddi rheoli trysorlys.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad diweddar Archwilio Mewnol ac yn nodi'r cynnwys.

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol (a ddsbarthwyd yn flaenorol). Dywedodd yr Aelod Arweiniol fod yr asesiad cyffredinol ar gyfer y tîm iechyd a diogelwch roedd wedi derbyn sicrwydd canolog, gyda hanes da o waith iechyd a diogelwch yn Sir Ddinbych, a bod y sicrwydd isel mewn ysgolion ers hynny wedi cynyddu i ganolog.

Arweiniodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol aelodau drwy'r adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am reolaeth Iechyd a Diogelwch yn y Cyngor o safbwynt y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Dywedodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yr adroddiad wedi darparu crynodeb blynyddol o'r materion a nodwyd ac a drafodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol yn fanylach -

Cadarnhaodd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod y nifer o ddigwyddiadau a gâi eu cofnodi yn parhau i gynyddu, a oedd yn dangos fod y cyfathrebu gyda staff wedi gweithio. Roedd y cynnydd yn yr achosion a adroddwyd o fewn Cyfleusterau, Asedau a Thai wedi cynyddu o ganlyniad i agor SC2. Roedd yn synhwyrol i gofnodi'r holl ddigwyddiadau hyd yn oed oes oeddent yn fân ddigwyddiadau, ac a oeddent o ganlyniad i ddefnyddio'r cyfleuster neu beidio. Pwrpas hyn oedd er mwyn cael y darlun llawn o'r cychwyn.

Amlinellwyd y drefn o reoli traffig mewn ysgolion a'i fod yn parhau i fod yn broblem. Eglurwyd mai dim ond ychydig o reolaeth oedd gan yr awdurdod dros sut roedd pobl yn parcio wrth i'r ysgolion agor a chau. Dywedwyd wrth y pwyllgor nad oedd y mater mor ddrwg yn Sir Ddinbych â siroedd eraill. Byddai camau gweithredu'n cael eu cymryd o ran parcio peryglus p'run ai a yw troseddau yn cael eu cyflawni ai peidio.

Holodd aelodau y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a fyddai contractwyr sy'n gweithio i CSDd yn rhoi gwybod i'r cyflogwr am ddigwyddiadau neu a fyddent yn rhoi gwybod i CSDd yn uniongyrchol. Eglurwyd y byddent yn rhoi gwybod yn uniongyrchol i'r cyflogwr.

Byddai camau i edrych eto ar ysgolion a amlygwyd fel rhai coch/oren a byddai'r tîm lechyd a Diogelwch yn herio'r materion gyda'r ysgolion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr lechyd a Diogelwch Corfforaethol am yr adroddiad ac am yr atebion clir i gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad, yn nodi'r cynnwys ac yn cymeradwyo cynllun gwaith y tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2018/19.

## **7 CYMERADWYO DATGANIAD CYFRIFON 2018/19**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad a Chynllunio Strategol yr adroddiad Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2018/19 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y cyngor. Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i lunio Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy.

Dywedodd y Prif Gyfrifydd wrth y pwyllgor nad oedd unrhyw ymholiadau wedi eu derbyn gan aelodau na gan y cyhoedd o ran y datganiad cyfrifon. Byddai adroddiad dilynol yn cael ei lunio erbyn mis Chwefror.

Amlinellodd Swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru yr heriau o gwblhau'r datganiad cyfrifon o fewn y terfynau amser newydd, ond roedd gwersi wedi eu dysgu gan siroedd Lloegr sydd â therfynau amser byrrach i gwblhau Datganiad Cyfrifon.

Y prif ganfyddiadau yn yr adroddiad yw bod y gwaith yn dda ac yn gyffredinol roedd yn adroddiad cadarnhaol heb unrhyw bryderon am agweddau ansoddol eich arferion cyfrifo ac adrodd ariannol. Datgelwyd sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i gynnal taenlenni cymhleth i gefnogi'r asedau sefydlog yn y datganiadau ariannol. Er bod y taenlenni hyn yn cael eu cynnal yn dda gan gefnogi paratoi'r cyfrifon, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru bryderon ynglŷn â gallu'r system i gefnogi proses gau cyfrifon symlach, yn enwedig pa mor hawdd y gwneir y cyfrifo ar gyfer ailbriso. Canmolodd Swyddfa Archwilio Cymru y gwaith a wnaed gan y tîm Cyllid.

Amlinellwyd y dull o gynnal taenlenni cymhleth i gefnogi'r asedau sefydlog a ph'run ai a oedd yna gynllun mewn grym i foderneiddio'r dull o gofnodi asedau sefydlog. Wrth ymateb dywedodd y Prif Gyfrifydd fod y moderneiddio yn brosiect mawr a gâi ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith fod dull o foderneiddio'r systemau yn digwydd ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd y prosiect hefyd wedi ei arafu gan fod y Pennaeth Cyllid wedi gadael y Cyngor. Y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio oedd nawr yn arwain y prosiect ac roedd cyfarfod wedi ei drefnu gyda Chonwy ar gyfer tymor yr hydref. Roedd yna systemau eraill mewn grym pe byddai'r prosiect gyda Chonwy yn methu, gallai system Techforge gael ei ddefnyddio. Holwyd a oedd yna ddyddiad tyngedfennol o ran y prosiect, byddai'r dyddiad terfynol yn nhymor yr hydref.

Cymeradwyodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y gwaith roedd y tîm Cyllid wedi ei wneud gyda'r datganiad cyfrifon ond hefyd

diolchodd am y gwaith caled roedd y Prif Gyfrifydd wedi ei wneud yn absenoldeb y Pennaeth Cyllid.

Gofynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd wrth y pwyllgor hefyd a fyddent yn cytuno'n ffurfiol fod y Cynghorydd Joe Welch yn llofnodi'r cyfrifon a'r llythyr sylwadau. Cytunodd yr holl aelodau oedd yn bresennol.

**PENDERFYNWYD:**

- *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2018/19, sef Atodiad 1 i'r adroddiad a bod*
- *y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid yn llofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr Sylwadau.*

**8 YMCHWILIADAU ARCHWILIO BLYNYDDOL 2018/19 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr adroddiad Ymholiadau Archwilio 2018/19 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i roi gwybod i'r Aelodau am ymateb y Cyngor.

Roedd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), fel archwilwyr allanol penodedig CSDd, ddyletswydd i gasglu tystiolaeth am sut mae rheolwyr a'r unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb dros lywodraethu (y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol) yn cyflawni eu dyletswyddau i atal a chanfod twyll.

Mae manylion ymatebion y rheolwyr (Pennaeth Cyllid) a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (Cadeirydd y Pwyllgor) wedi eu nodi fel atodiad i'r adroddiad.

Yn gryno roedd yr ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd canlynol o lywodraethu:

- Prosesau rheoli sydd ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
- Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
- Prosesau i gael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- A oes unrhyw ymgyfreithiad posibl neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol. Prosesau i adnabod, awdurdodi, cymeradwyo, cyfrif am a datgelu trafodion partiön cysylltiedig â pherthnasoedd.

Canmolodd Aelodau'r adroddiad ond amlygwyd y modiwl E-ddysgu ar y Cod Ymddygiad a Rhannu Pryderon. Roedd hwn wedi ei gyflwyno'n ddiweddar ac roedd yn orfodol i staff ei gwblhau ac roedd yn ffurfio rhan o'r broses gyflwyno. Holwyd a oedd yna dull i fonitro'r staff nad oeddent wedi cwblhau'r modiwlau. Sicrhwyd Aelodau fod yna adroddiadau misol yn cael eu llunio i reolwyr i fonitro aelodau o staff nad oeddent wedi cwblhau'r modiwlau gorfodol.

Canmolodd y pwyllgor yr adran Gyllid a Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith roeddent wedi ei wneud.

**PENDERFYNWYD** y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gadarnhau yn ffurfiol yr ymatebion sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

## **9 DIWEDDARIAD ARCHWILIO GWASANAETH COFRESTRU**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol y Diweddaraf ar Archwilio'r Gwasanaeth Cofrestru (a ddisbarthwyd yn flaenorol) oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar y cynnydd mewn rhoi'r cynllun gweithredu ar waith. Cynllun oedd hwn oedd yn cyd-fynd ag adroddiad Archwilio Mewnol ar y Gwasanaeth Cofrestru yn Ionawr 2019.

Roedd adroddiad dilynol Archwilio Mewnol (Atodiad 1) yn dangos fod y broses o roi'r camau gweithredu ar waith wedi ei heffeithio'n amlwg gan newidiadau staffio diweddar. Ond roedd cynnydd yn cael ei wneud ac fe aed i'r afael â nifer o gamau gweithredu ac roedd nifer bron â chael eu cwblhau. Roedd saith cam gweithredu yn ymwneud â materion risg uchel wedi eu cwblhau ac roedd hynny'n gadael pump ar y gweill. Roedd un o'r pedwar cam gweithredu'n ymwneud â materion risg canolig wedi eu cwblhau.

Roedd angen gwelliant pellach i fynd i'r afael yn llawn â'r camau gweithredu ar ôl, er enghraifft i gwblhau datblygu gweithdrefnau a chryfhau rheolaethau yn ymwneud â rheoli incwm a chymodi. Wedi ei seilio ar faes yr adolygiad gwreiddiol a'r gwelliannau a wnaed, cynyddwyd y raddfa sicrwydd o isel i ganolig. Byddai Archwilio Mewnol yn parhau i fonitro'r camau gweithredu ar ôl, yr aed i'r afael â nhw'n rhannol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

Amlygwyd y cynllun gweithredu gyda rhoi'r systemau TGCh ar waith a ph'run ai a oedd Ebrill 2020 yn debygol o fod yn ddyddiad cwblhau. Eglurwyd ei bod yn debygol y byddai'r dyddiad yn cael ei ymestyn ychydig, ond roedd trafodaethau gyda TGCh yn gynhyrchiol.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu archwilio.

## **10 DIWEDDARIAD ARCHWILIO CYTUNDEBAU ADRAN 106**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilio ar y Cytundeb Adran 106. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau i Gytundebau Adran 106 ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol a roddodd 'Sicrwydd Isel'.

Canmolodd Aelodau yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y camau gweithredu oedd wedi eu cymryd a phenderfynwyd y byddai adroddiad dilynol yn dod yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2020.

**PENDERFYNWYD** – fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i adolygu'r cynnydd o ran y camau gweithredu archwilio ac y byddai adroddiad dilynol yn cael ei lunio ar gyfer Mawrth 2020.

## 11 ARCHWILIO MEWNOL O GYLLIDEBAU CEFNOGAETH A THALIADAU UNIONGYRCHOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr Archwiliad Mewnol o Gyllidebau Cymorth a Thaliadau Uniongyrchol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Gyllidebau Cymorth a Thaliadau Uniongyrchol a dderbyniodd raddfa Sicrwydd 'Isel'.

Ar adeg adolygiad yr adain archwilio roedd y ddarpariaeth o gyllidebau cymorth a thaliadau uniongyrchol mewn cyfnod pontio gyda dogfennaeth, prosesau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu. Ymhlith y gwelliannau sydd eisoes ar y gweill mae: rhoi dogfen asesu capasiti mewn grym a gwella'r broses cyllideb cymorth trydydd parti. Ond roedd rhai aelodau o staff yn parhau yn ansicr ynglŷn â'r trefniadau presennol ac nid oedd y broses wedi'i sefydlu yn llawn.

Roedd y gyllideb cymorth yn opsiwn a gaiff ei ystyried ar gyfer darparu gofal a chymorth wedi ei reoli i gydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan ganolbwyntio cymorth a chefnogaeth ar gyflawni deilliannau ar gyfer dinasyddion.

Eglurwyd nad oedd y monitro o daliadau uniongyrchol gan y Swyddogion Asesu Ariannol bob amser yn cael eu cadw'n electronig, ac roedd anghysondeb rhwng swyddogion o fewn y tîm yn nhermau beth oedd yn cael ei gofnodi. Mae diffyg cofnodion clir yn golygu nad oedd archwilio'n gallu asesu amllder y monitro a chyhoeddi negeseuon atgoffa (lle nad yw ffurflenni wedi eu cyflwyno gyda manylion gwariant); dywedodd y tîm wrth yr adain archwilio fod peth oedi wedi bod o ran eu monitro. Hefyd nid oedd archwilio'n gallu adrodd ar y nifer o ffurflenni nad ydynt wedi eu cyflwyno gan ddinasyddion a beth oedd eu gwerth.

Cododd Aelodau y pwyntiau canlynol -

- Codwyd monitro benthyca a'r ffurflenni gyda'r gwariant a sut roedd holi am wybodaeth o ran gwariant rywfodd fel 'rheolaeth drwy orfodaeth' a sut fyddai'r Cyngor yn parhau i ofyn am yr wybodaeth tra'n parhau i barchu'r rhai sy'n derbyn taliadau. Ymatebodd swyddogion drwy bwysleisio ei bod yn gydbwysedd delicet i fod yn barchus ond roedd angen casglu'r wybodaeth.
- Cytunwyd fod angen y cydbwysedd a'i bod yn beth da fod archwilio'n mynd i'r afael â phryderon oedd yn cael eu codi yn ystod yr adolygiad. Cytunodd Aelodau y byddai'n fuddiol i dderbyn adroddiad dilynol gan yr adain Archwilio ym Mawrth 2020 pan fyddai'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi eu cwblhau.

### **PENDERFYNWYD**

- *Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
- *Y byddai adroddiad dilynol yn cael ei lunio ym Mawrth 2020.*

## 12 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Diweddariadau i Gyfansoddiad y Cyngor (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn darparu diweddariad blynyddol i'r

Pwyllgor a chyfeirio at y newidiadau arfaethedig sydd angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor.

Pwysleisiwyd i'r Aelodau fod y Swyddog Monitro yn fodlon fod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben a chadarnhaodd fod y Cyfansoddiad wedi ei ddiwygio i ystyried y canlynol:

- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn dilyn ymgynghori â'r Pwyllgor a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 19 Chwefror 2019.
- Cyfrifoldeb am Swyddogaethau Gweithrediaeth – mae newidiadau wedi eu gwneud i bortffolios Aelodau'r Cabinet yn dilyn newidiadau a wnaed gan Arweinydd y Cyngor.
- Cyfuno dau Bwyllgor presennol i ffurfio'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Pherthnasoedd Gweithwyr
- Cadw Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Cyngor yn gyfredol.

Hysbyswyd Aelodau hefyd y byddai angen gwneud newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion o ganlyniad i'r newidiadau a wneir yn sgil ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

- Cynllun Dirprwyo Swyddogion – y cynllun arfaethedig sydd wedi ei atodi fel atodiad 1 yn ymdrin â throsglwyddo swyddogaethau penodol yn ymwneud â thai; trosglwyddo swyddogaethau penodol yn ymwneud ag asedau a stadau a'r cyfrifoldeb yn nhermau swyddogaethau hamdden yn cael eu trin o dan y cynllun Cabinet.
- Cynllun Dirprwyo'r Cabinet wedi ei atodi yn atodiad 2, darpariaeth yn nodi fod y swyddogaethau hyn gyda'r aelod arweiniol perthnasol.

Mewn perthynas â'r cynllun dirprwyo byddai'r swyddogaeth cyfleusterau yn cael ei throsglwyddo i Bennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata, tra byddai'r swyddogaethau asedau a stadau yn cael eu trosglwyddo i'r Pennaeth Cyllid. Byddai'r agweddau hamdden yn cael eu trosglwyddo i'r Model Darparu Amgen.

Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- Holwyd ynglŷn â rheolaeth y Model Darparu Amgen ac a oedd wedi'i gwblhau. Hysbyswyd yr Aelodau fod cwmni wedi ei sefydlu. Byddai'r Cabinet yn creu bwrdd a byddai rheolwr gweithredol yn cael ei benodi i fonitro sut roedd y cwmni'n perfformio.
- Holwyd ynglŷn â chyllid y Model Darparu Amgen a sut y byddai'n cael ei archwilio. Eglurwyd y byddai'r cwmni'n cael ei archwilio gan yr adain archwilio mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru gan fod y cwmni'n parhau i gael ei reoli gan y Cyngor. Byddai cyllid y Model Darparu Amgen yn cael ei gynnwys yn y datganiad cyfrifon.
- Nododd y pwyllgor fod yna ddyblygu o ran pwynt 9.8 a 16.9 o fewn y cynllun dirprwyo ar gyfer swyddogion. Ymatebodd swyddogion drwy hysbysu'r pwyllgor y byddai'r camgymeriad yn cael ei gywiro.

**PENDERFYNWYD** fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cefnogi ac yn argymhell mabwysiadu'r Cyfansoddiad wedi ei ddiweddarau.

### 13 RHEOLI RISG - ARCHWAETH RISG

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad y ddogfen Rheoli Risg – Awydd am Risg (oedd wedi ei dosbarthu yn flaenorol) a oedd yn fersiwn drafft diwygiedig o'r Canllawiau Rheoli Risg, oedd yn ymgorffori'r Datganiad Awydd am Risg.

Roedd Canllawiau Rheoli Risg Sir Ddinbych yn amlinellu ymagwedd y cyngor tuag at reoli risg. Roedd yn ganllaw cynhwysfawr i adnabod a rheoli risg yn rhagweithiol. Cynhaliwyd Adolygiad Archwilio Mewnol o reoli risg ym mis Tachwedd 2018. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod trefn rheoli risg Sir Ddinbych yn "gadarn gyda phrosesau da mewn grym". Ond daeth yr Adolygiad Archwilio Mewnol i'r casgliad fod y Canllaw yn ddiffygiol o ran awydd am risg:

Eglurwyd mai'r awydd am risg yw'r lefel o risg roedd y Cyngor yn barod i'w oddef neu ei dderbyn er mwyn ceisio cyflawni ei amcanion strategol hirdymor.

Yn dilyn yr adolygiad gan yr adain Archwilio Mewnol fe fu yna ystod o ymchwil ac ymgysylltu, gan gynnwys gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac yng nghyfarfod Briffio'r Cabinet, i ddatblygu ymagwedd tuag at awydd am risg sy'n gymesur ac ymarferol. Roedd yr ymagwedd oedd wedi ei ddatblygu wedi ei seilio ar weithredu awydd am risg mewn meysydd eraill a gan sefydliadau eraill. Hefyd cafwyd cyngor gan Ymgynghorydd Risg Strategol y Cyngor, Zurich Insurance Ltd.

Holodd Aelodau a fyddai'n ofynnol i ysgolion fabwysiadu fersiwn drafft y Canllawiau Rheoli Risg, oedd yn ymgorffori'r Datganiad Awydd am Risg. Hysbysodd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad aelodau nad oedd yn sicr a fyddai gofyn i ysgolion fabwysiadu'r canllawiau newydd, ond eglurwyd pe na byddai'r fethodoleg newydd yn cael ei mabwysiadu yna byddai angen iddynt greu eu methodoleg eu hunain. Hysbyswyd y pwyllgor y byddai'r awydd am risg yn cael ei drafod wrth i ysgolion gael eu harchwilio.

#### ***PENDERFYNWYD*** fod

- *Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Datganiad Awydd am Risg.*
- *ac y byddai adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym Medi 2020.*

### 14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd eisoes) i'w hystyried.

Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y gellid symud rhai eitemau o gwmpas yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gan fod rhaglen y cyfarfod nesaf eisoes yn helaeth. Awgrymwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Rannu Pryderon fel adroddiad posib a allai gael ei ohirio.

Dywedodd y Prif Gyfrifydd wrth y pwyllgor mai'r un adroddiad oedd eitem 8 a 9. Eitem rhif 7 i fod oedd rheoli cyllid mewn ysgolion. Gellid cynnwys lechyd a Diogelwch mewn ysgolion fel adroddiad gwybodaeth a allai gael ei gyflwyno yn ôl i'r pwyllgor.

Yn dilyn y drafodaeth bydd adroddiad dilynol ar gyfer y Cytundebau Adran 106 a'r Archwiliad Mewnol o Gyllidebau Cymorth a Thaliadau Uniongyrchol yn cael eu cyflwyno yn ôl i'r pwyllgor ym Mawrth 2020. Cytunwyd y byddai'r adroddiad dilynol ar reoli risg yn dychwelyd ym Medi 2020.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland a/ac Barry Mellor



<b>Adroddiad i'r:</b>	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	20 Tachwedd 2019
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	Yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth a'r Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau
<b>Teitl:</b>	Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol 2018 – 2019

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi'r materion allweddol sy'n codi o adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o berfformiad Cyngor Sir Ddinbych wrth weithredu ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae copi o'r llythyr adolygiad llawn wedi ei atodi fel Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I sicrhau fod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwerthusiad perfformiad ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys meysydd o gynnydd, meysydd i'w gwella a risg.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod yr Aelodau yn ystyried gwerthusiad AGC ac yn ystyried a oes angen unrhyw archwilio pellach. Mae Uwch Reolwr AGC yn bwriadu mynychu'r cyfarfod i alluogi Aelodau i gael eglurder ar unrhyw elfen benodol o'r llythyr adolygu.

## 4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae llythyr blynyddol AGC yn darparu adborth ar weithgaredd archwilio a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn; adroddiadau ar gynnydd mae'r awdurdod lleol wedi ei wneud mewn gweithredu'r argymhellion o'r archwiliadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion; ac mae'n amlinellu rhaglen gwaith i'r dyfodol AGC.
- 4.2 Mae'r llythyr yn darparu crynodeb o'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella. Mae'r meysydd a nodwyd fel rhai lle mae angen gwelliannau yn unol ag Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe fyddant yn cael eu hymgorffori o fewn Cynlluniau Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2019 – 2020.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r archwiliad yn darparu persbectif allanol o berfformiad y Cyngor mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yr ymateb i gyflawni camau gweithredu gwella yn cael eu hintegreiddio i mewn i Gynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2019/2020. Bydd cyflwyno'r cynlluniau hyn yn cael ei reoli o fewn yr adnoddau ariannol presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les oherwydd nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid ar gyfer staff neu'r gymuned ehangach. Bydd Asesiadau o'r Effaith ar Les yn cael eu cwblhau ar flaenoriaethau unigol os ydynt angen i brosiectau ddechrau a/neu i benderfyniadau gael eu gwneud.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae cyfarfodydd ymgysylltu a drefnwyd yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ac AGC sy'n helpu i lywio'r gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd o ran cyflawni gwelliant.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodwyd uchod mae'n bwysig fod unrhyw gostau'n ymwneud â'r cynlluniau gwella a'r camau gweithredu yn cael eu cynnal o fewn y cyllidebau blynyddol lle mae arian yn gyfyngedig ar gyfer y gwasanaeth a gytunwyd a hynny ar sail flynyddol.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Annwyl Cyfarwyddwr

## Adolygiad AGC o Berfformiad Awdurdod Lleol

Cyhoeddwyd ein cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2019 a oedd yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion;
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ddinbych yn y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaus.

Caiff y cynnwys ei lywio gan weithgarwch gwerthuso perfformiad AGC yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys nifer o ymweliadau ymgysylltu â phlant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth, gweithgareddau â ffocws mewn canolfannau timau i adolygu ffeiliau achos a darllen dogfennaeth yr awdurdod ei hun.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Caerfyrddin  
Llywodraeth Cymru  
Adeiladau'r Llywodraeth  
Heol Picton  
Caerfyrddin  
SA31 3BT  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIWLocalAuthority@gov.wales](mailto:CIWLocalAuthority@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Carmarthen Office  
Welsh Government  
Government Buildings  
Picton Terrace  
Carmarthen  
SA31 3BT  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom drafod y materion hyn ynghyd â'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad arfaethedig ar gyfer 2019/20 â chi yn y cyfarfod Adolygu Perfformiad blynyddol ar 30 Ebrill 2019.

### Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

- Lles

Mae llesiant a hyrwyddo annibyniaeth yn eitemau pwysig ar yr agenda ac maent yn cael eu hymgorffori mewn gwasanaethau ar bob lefel o fewn awdurdod lleol Sir Ddinbych.

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Plant ac Addysg yn darparu arweinyddiaeth gref a phwyslais clir ar bwysigrwydd llesiant wrth alluogi plant i fod yn ddiogel, yn hyderus ac i allu dysgu. Clywsom am y gwaith o atgyfnerthu cydberthnasau newydd rhwng staff yn y gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion, ac uchelgais i gefnogi mwy o rieni, teuluoedd a phlant i geisio cymorth cyn iddynt gyrraedd argyfwng.

Yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, rydym yn annog yr awdurdod lleol i barhau i gydnabod ymyrryd yn gynnar ac atal fel dyletswyddau statudol sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i blant a lleihau'r galw ar gyllidebau. Rydym yn cydnabod pryder uwch-reolwyr ynghylch cyllid grant ar gyfer dyletswyddau statudol a heriau cyllid tymor byr i gynllunio ariannol cynaliadwy.

Er mwyn cefnogi staff i gyflawni ar gyfer llesiant pobl, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod yr holl dempledi ac adnoddau cofnodi'n gyfredol yn unol â gofynion cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r gofynion i sicrhau bod templedi asesu ar gyfer oedolion a phlant yn gyson â'r rheini a ddefnyddir gan gydweithwyr ar draws ôl troed y bwrdd iechyd.

- Pobl – llais a dewis

Mae buddsoddiad parhaus Cyngor Sir Ddinbych i wella mynediad drwy Bwynt Mynediad Unigol, Pwyntiau Siarad a Chyfeirwyr Cymunedol yn unol cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Fodd bynnag, mae dangosyddion perfformiad ac arolwg gofalwyr yr awdurdod lleol yn dangos bod bron chwarter o'r ymatebwyr wedi adrodd iddynt gael anhawster wrth gael y wybodaeth a'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt. Mae angen i uwch-reolwyr sicrhau bod y cyfuniad o Bwyntiau Mynediad Unigol a Phwyntiau Siarad yn parhau i fodloni'r gofyniad i ddarparu ymatebion amserol a chymesur ac nad ydynt wedi cyflwyno cam ychwanegol diangen neu oedi yn y broses i bobl sy'n agored i niwed a'u gofalwyr sy'n gymwys i gael gofal a chymorth a reolir. Dylai'r awdurdod lleol fanteisio ar yr hyn a ddysgir o unrhyw gwynion i'r gwasanaethau gweithredol am gyfathrebu gwael neu ddiffyg gwybodaeth.

Mae adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr yn cynnwys llawer o ganmoliaethau gan bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau ac mae hunanwerthusiad diweddar o wasanaethau i oedolion hyn a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol yn cynnwys enghreifftiau o arfer da a chanlyniadau da i bobl. Mae'r defnydd cadarnhaol o'r enghreifftiau hyn yn dangos

dealltwriaeth glir o bwysigrwydd meithrin cydberthnasau cadarnhaol a gweithio mewn partneriaeth â staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau i nodi a gwneud y gorau o'u cryfderau a'u hadnoddau personol er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd yn ymwneud â chefnogi pobl sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol, gan eu grymuso i gydgyhyrchu atebion gyda phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae eu hyder a'u cymhwysedd yn hanfodol er mwyn cyflwyno gwasanaethau'n effeithiol ac rydym yn cydnabod manteision dathlu'r nifer o ganmoliaethau a dderbyniwyd a'r cynnydd da a wnaed tuag at gydgyhyrchu a rhoi'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar waith yn adroddiad y cyfarwyddwr. Rydym hefyd yn cydnabod y pwyslais y mae'r awdurdod lleol yn ei roi ar ennill 'gwobrau' a'r hwb y mae'r cyflawniadau hyn yn ei roi i forâl staff. Fodd bynnag, dylai adroddiad y Cyfarwyddwr hefyd ddangos bod yr awdurdod lleol yn cael adborth gan bobl a chynnwys cydbwysedd o sylwadau, gan gynnwys y rheini lle nad yw'r adborth yn gadarnhaol ac wedi arwain at welliannau neu a fydd yn eu hysgogi.

Mae cyfathrebu â phobl yn eu dewis iaith yn parhau i fod yn her i Gyngor Sir Ddinbych. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr her ac yn dangos creadigrwydd yn ei ymateb drwy wneud pethau fel sefydlu Grŵp Aelodau Cymraeg, sef pwyllgor y cyngor a sefydlwyd yn ffurfiol sydd â chyfrifoldeb am oruchwyllo strategaeth Gymraeg y cyngor.

Ceir arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu cadarn yn y gwasanaethau plant. Mae staff rheng flaen a rheolwyr timau yn elwa ar wybodaeth sylweddol prif ymarferydd gwaith cymdeithasol hynod profiadol sy'n hael wrth rannu'r hyn y mae wedi'i ddysgu ac yn annog myfyrio. Mae'r ymarferydd yn darparu cydbwysedd a goruchwyliaeth i dîm rheoli gweithredol profiadol a brwdfrydig sy'n awyddus i roi cynnig ar syniadau newydd.

Mae aelodau eithaf newydd o dîm uwch-reolwyr y gwasanaethau oedolion wedi dod â syniadau, profiadau a safbwyntiau newydd i'r gwasanaeth. Mae rheolwyr timau wedi dweud wrthym am y cymorth da a gaiff ei gynnig iddynt a'r cyfleoedd sydd ganddynt i fod yn greadigol wrth chwilio am atebion i ddiwallu anghenion cymwys.

Mae ein gwaith i fonitro'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn parhau i fonitro hyn.

- Partneriaethau

Mae ein gweithgaredd â ffocws drwy'r flwyddyn wedi cynnwys darllen detholiad o ffeiliau achos plant. Darparodd y ffeiliau achos dystiolaeth o weithio amlasiantaeth da a chiplun o'r heriau sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol rheng flaen yn eu gwaith i gadw plant yn ddiogel. Roedd achosion weithiau'n cynnwys heddlu o amrywiaeth o luoedd, nyrsys arbenigol a'r sector gwirfoddol, ac roeddent yn gofyn i'r staff ddangos creadigrwydd a chadernid i gyflawni canlyniadau da i blant.

Roedd cofnodion o gyfarfodydd yn y ffeiliau achos o safon dda ac, er y gallai rhai camau gweithredu fod wedi bod yn fwy amserol ac roedd rhai cyfleoedd bach a gollwyd, roedd y gwaith yn dda ar y cyfan ac roedd yn amlwg mai'r plant oedd ffocws y gwaith.

Mae gwasanaeth ailalluogi a chlwestwr Camu i Lawr Sir Ddinbych sy'n gweithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn adrodd bod llai o oedi wrth drosglwyddo gofal o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac nad oes angen pecyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach ar 78% o'r oedolion sy'n cwblhau cyfnod ailalluogi. Mae hwn yn ffigur uchel a dylai rheolwyr sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn cael ei dargedu'n gywir er mwyn cael buddion gwell.

- Atal

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at nifer o ffrydiau gwaith cydweithredol a rennir ar draws y rhanbarth, gan gynnwys agenda'r tîm adnoddau cymunedol. Mae tîm adnoddau cymunedol gweithredol cyntaf Cyngor Sir Ddinbych yn Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl wedi bod ar waith am dros 12 mis. Yn ystod gweithgaredd monitro â ffocws, gwelsom fod ystafell y tîm yn byrlymu â gweithgarwch a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu er budd y bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau.

Gwelsom fod y gwasanaeth ar daith i integreiddiad cadarnhaol, gyda gweithwyr proffesiynol eisoes yn manteisio ar rai cyfleoedd i leihau dyblygu a darparu gwasanaethau llyfn i bobl ag anghenion gofal a chymorth. Gwelsom hefyd ddealltwriaeth amrywiol o ddiben a buddion posibl sgysiau 'yr hyn sy'n bwysig'; mae angen hyfforddiant pellach ar rai aelodau o'r tîm er mwyn sicrhau bod ganddynt well dealltwriaeth o bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau'n dod yn fwy effeithlon a chynaliadwy. Mae'r tîm adnoddau cymunedol diweddaraf yn Rhuthun yn ychwanegiad cadarnhaol ac mae'r awdurdod lleol wedi cael ei annog i barhau i sefydlu canolfannau timau adnoddau cymunedol.

Mae oedi yn y broses o ddiogelu oedolion yn Sir Ddinbych wedi cael ei amlygu fel maes sy'n peri pryder i AGC ers peth amser. Mae nifer fawr o ymholiadau diogelu nad ydynt yn cael eu cwblhau o fewn 7 niwrnod sy'n awgrymu nad yw'r gwasanaeth yn darparu ymateb amserol i oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.

Mae uwch-reolwyr yng Nghyngor Sir Ddinbych yn pennu'r llwybr tuag at gymunedau sy'n seiliedig ar atal a chryfderau yn glir. Mae posteri a deunyddiau dysgu yn weladwy mewn swyddfeydd a dywedodd staff wrthym am yr 'olwyn adnoddau' a ddefnyddir i ategu'r gwaith a sicrhau bod cryfderau pobl yn cael eu cydnabod fel adnodd er mwyn diwallu eu hanghenion eu hunain. Dylai'r awdurdod lleol adeiladu ar y gwaith hwn drwy ddatblygu ymgyrchoedd cymunedol a mentrau cymdeithasol ymhellach.

Drwy gydol 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Casglwyd tystiolaeth ansoddol o arolygiadau plant a maethu chwe awdurdod lleol, 22 o hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd her a gynhaliwyd gyda'r awdurdodau lleol hynny nad oeddent yn destun arolygiad, a gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, y rhai oedd wedi gadael gofal a gofalwyr maeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan ac amlinellir y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, arfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu hystyried gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

## Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2019/20

Bydd ein rhaglen arolygu thematig wedi'i threfnu ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar atal a hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn ac ar gyfer yr arolygiad thematig o wasanaethau plant, bydd y ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. Dewiswyd Cyngor Sir Ddinbych am arolygiad o'r gwasanaethau i oedolion hŷn ac, ar amser ysgrifennu'r llythyr hwn, disgwylir i'r arolygiad ddechrau yn fuan.

Ynghyd â'r rhaglen arolygu thematig, byddwn yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu a fydd yn cyd-fynd â thema'r arolygiadau a byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal chymorth. Byddwn yn cynnull cyfarfod â'r awdurdod lleol a'i bartneriaid allweddol yn ystod yr haf i gynnal adolygiad dilynol o'r hunanwerthusiad o waith i hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2019. Caiff adroddiadau cenedlaethol eu cyhoeddi ar ôl i'r rhaglen arolygu thematig a'r gweithgareddau ymgysylltu gael eu cwblhau

Rydym yn ymwybodol bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymgymryd â pheth gwaith ar Bwyntiau Mynediad Unigol yn Sir Ddinbych a byddwn hefyd yn edrych ar hyn yn ein harolygiad sydd ar ddod o'r gwasanaethau i oedolion hŷn. Byddwn hefyd yn edrych ar drefniadau ailalluogi a rhyddhau o ysbytai a'r ffordd y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl i aros yn annibynnol. Mae diogelu oedolion bob amser yn ffocws yn ein harolygiadau.

Bydd ein gweithgaredd â ffocws gyda'r gwasanaethau plant yn cynnwys edrych ar sawl gwaith y mae gweithiwr cymdeithasol plant yn newid.

Bydd AGC yn parhau i weithio gydag AGIC i arolygu timau iechyd meddwl cymunedol ar y cyd. Byddwn hefyd yn cymryd camau dilynol i adolygu'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad thematig ar y cyd gan AGIC ac AGC o dimau iechyd meddwl cymunedol yn ystod y cyfarfodydd â phenaethiaid gwasanaeth a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Mae AGC yn gweithio ar y cyd ag Arolygiaeth Cwnstabwliaeth Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Cwnstabwliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, AGIC ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer cydarolygu trefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Byddwn yn treialu un model yn ystod hydref 2019. Gyda'r pwyslais ar gydweithredu ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill i rannu gwybodaeth ac i gynllunio arolygiadau ar y cyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod y llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir



Sharon Eastlake  
**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol Dros Dro**  
Arolygiaeth Gofal Cymru

Cc.  
SAC  
AGIC  
Estyn



**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y cyfarfod:** 20 Tachwedd 2019

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Yr Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth a'r Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Aelod Arweiniol dros Gynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel / Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

**Awdur yr Adroddiad:** Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

**Teitl:** Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r materion allweddol sy'n codi o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Cyngor Sir Ddinbych. Mae copi o'r llythyr adolygu llawn wedi ei amgáu fel Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I sicrhau fod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r adolygiad o'r trefniadau corfforaethol yn ymwneud â diogelu gan gynnwys meysydd o gynnydd, meysydd o welliant a risg.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fe argymhellir fod Aelodau yn ystyried adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ystyried a oes angen unrhyw graffu pellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1 Roedd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer diogelu plant ac oedolion yn ceisio cael sicrwydd fod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol mewn grym ar gyfer diogelu.
- 4.2 Fe ddaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu ond fod angen gwella monitro a rhoi gwybod am berfformiad.
- 4.3 Mae'r ardaloedd a nodwyd fel rhai lle mae angen gwelliannau yn unol ag Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe fyddant yn cael eu hymgorffori yn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2019 - 2020.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r archwiliad yn darparu persbectif allanol o berfformiad y Cyngor mewn perthynas â diogelu corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd yr ymateb i gyflawni camau gweithredu o ran gwelliannau yn cael eu hintegreiddio i mewn i Gynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2019/2020. Bydd cyflwyno'r cynlluniau hyn yn cael ei reoli gydag adnoddau ariannol presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les oherwydd nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid ar gyfer staff neu'r gymuned ehangach. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Les yn cael ei wneud ar flaenoriaethau unigol os oes angen i brosiectau ddechrau a/neu i benderfyniadau gael eu gwneud.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae cyfarfodydd ymgysylltu a drefnwyd yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n helpu i lywio gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd o ran cyflawni gwelliant. Hefyd mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd her y gwasanaeth yn flynyddol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodwyd uchod mae'n bwysig fod unrhyw gostau cysylltiedig â'r camau gweithredu yn cael eu cynnal o fewn y cyllidebau arian cyfyngedig blynyddol ar gyfer y gwasanaeth a gytunir yn flynyddol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu – **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1338A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gwilym Bury a Jeremy Evans, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu, ond mae angen iddo wella prosesau monitro ac adrodd ar berfformiad.

## Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Cynigion ar gyfer Gwella	5

## Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu, ond mae angen iddo wella prosesau monitro ac adrodd ar berfformiad	6
Y prif adroddiad	6
Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu corfforaethol	6
Mae hyfforddiant diogelu ar waith yn y Cyngor, ond mae bylchau o ran darparu hyfforddiant, yn enwedig ymhlith cynghorwyr ac ysgolion	7
Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad diogelu'n effeithiol	8

## Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu a gyhoeddwyd yn 2015	10
--	----

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Fe adolygom ni drefniadau corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Er bod rhai trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu'n gweithredu'n rhanbarthol (yn yr ardal ddaearyddol hon trwy Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru), roedd ffocws ein hadolygiad ar drefniadau corfforaethol y Cyngor ei hun.
- 2 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant<sup>1</sup>. Fe wnaethom hefyd ystyried yr argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015)<sup>2</sup>.
- 3 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2019.

### Yr hyn a ganfuom

- 4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn darparu sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu?
- 5 **Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu, ond mae angen iddo wella prosesau monitro ac adrodd ar berfformiad.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
  - mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu corfforaethol;
  - mae hyfforddiant diogelu ar waith yn y Cyngor, ond mae bylchau o ran darparu hyfforddiant, yn enwedig ymhlith cynghorwyr ac ysgolion; ac
  - nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad diogelu'n effeithiol.

<sup>1</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Sir Ddinbych, Medi 2014**

<sup>2</sup> Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

# Cynigion ar gyfer Gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Cynigion ar gyfer gwella	
C1	Mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun bod yr holl ysgolion yn cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol.
C2	Dylai'r Cyngor gefnogi'r holl gynghorwyr i'w galluogi i gwblhau hyfforddiant diweddarau ar ddiogelu.
C3	Dylai'r cyfarfodydd Cabinet, Craffu a Herio Gwasanaethau'r Cyngor gael a gwerthuso'r set lawn o wybodaeth am berfformiad o ran diogelu.

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer diogelu, ond mae angen iddo wella prosesau monitro ac adrodd ar berfformiad

### Y prif adroddiad

## Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu corfforaethol

- 6 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am ddatblygu trefniadau llywodraethu corfforaethol effeithiol ac ateb yr holl ofynion statudol. Gan hynny, y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod polisi a gweithdrefn effeithiol ar waith ar gyfer diogelu a'u bod yn cael eu gweithredu. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau (sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd â'r cyfrifoldeb terfynol ac unigol am faterion diogelu. Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys gwneud yn siŵr bod gan y Cyngor fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys monitro effeithiolrwydd trefniadau ac adrodd ar lefel gorfforaethol wrth gynghorwyr ynglŷn â'u heffeithiolrwydd a'r modd y cânt eu cyflawni.
- 7 Mae gan y Cyngor Banel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion (y Panel). Mae'r Panel yn cael gwybodaeth ynghylch arferion gweithio a gweithdrefnau holl wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Panel bod y gwasanaethau'n cyflawni eu dyletswyddau yn unol â Pholisi a Chanllawiau Diogelu Corfforaethol y Cyngor.
- 8 Mae'r Panel yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob rhan o'r Cyngor. Mae Arweinydd y Cyngor, y cynghorydd arweiniol ar gyfer Lles ac Annibyniaeth, y cynghorydd arweiniol ar gyfer Addysg, Plant a Phobl Ifanc, a'r cynghorydd arweiniol ar gyfer Safonau Corfforaethol yn aelodau sefydlog o'r Panel sy'n cwrdd yn chwarterol.
- 9 Mae aelodaeth y Panel hefyd yn cynnwys Rheolwyr Diogelu Dynodedig. Y rhain yw'r swyddog penodol arweiniol ym mhob gwasanaeth ar gyfer rhoi gweithdrefnau diogelu ar waith o fewn eu maes gwasanaeth, er mai'r Penaethiaid Gwasanaeth sy'n dal i fod yn gyfrifol am berfformiad diogelu ar y cyfan. Mae polisi diogelu'r Cyngor yn datgan fel a ganlyn: 'Mae'r Panel yn ddull allweddol o sicrhau bod y Rheolwyr Diogelu Dynodedig yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth ar draws y Cyngor. Maent hefyd yn ymdrin ag adnabod unrhyw fylchau yng ngweithdrefnau'r Cyngor ym maes diogelu ynghyd â chyflwyno argymhellion ynghylch diweddaru neu ddiwygio Polisi'r Cyngor yn y maes hwn'.



- 10 Mae Tîm y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain yn cael adroddiadau gan y Panel 'yn ôl y gofyn'<sup>3</sup>. Mae'r Cyngor yn credu bod hyn yn rhoi digon o sicrwydd i'r Prif Weithredwr bod diogelu'n cael y sylw dyledus o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, mae sicrwydd cadarnhaol yn neges ddefnyddiol i'w rhannu hefyd ac yn atgoffa'r rhai â chyfrifoldebau bod ymarfer diogelu'n gweithio'n dda. Yn y flwyddyn ddiwethaf cafodd nifer o adroddiadau ar faterion diogelu penodol a oedd yn achosi pryder eu hanfon at y Prif Weithredwr a chafodd papurau briffio dilynol eu hanfon at Gabinet y Cyngor.
- 11 Mae diogelu wedi'i gynnwys fel risg yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r holl Gofrestrau Risgiau Lefel Gwasanaeth. Mae'r holl wasanaethau'n mynd ati'n ffurfiol i asesu eu risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu'n flynyddol a lle y bo'n ofynnol dylent gymryd camau priodol i liniaru risgiau yn y dyfodol. Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn monitro'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- 12 Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn weddol gynhwysfawr, yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan a mewnrwyd y Cyngor. Mae gan y Cyngor dudalen we hygyrch, bwrpasol ar ddiogelu corfforaethol sydd â fideo sy'n egluro materion diogelu i'r cyhoedd ac sy'n cysylltu â pholisïau eraill sy'n gysylltiedig â diogelu megis y Polisi Recriwtio, y Polisi Defnyddio Gwirfoddolwyr a'r Polisi ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'r polisïau penodol ar gyfer Diogelu Oedolion a Plant. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys copi o'r Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant Enghreifftiol i'w ddefnyddio mewn ysgolion. Mae'r wefan yn dynodi bod yr holl ysgolion wedi derbyn y polisi hwn.
- 13 Mae Polisi Recriwtio a Dethol y Cyngor yn sicrhau bod penodiadau i'r holl swyddi priodol yn amodol ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyfforddiant recriwtio diogelach yn orfodol i reolwyr sy'n recriwtio. Dywed y Cyngor bod gan holl ysgolion Sir Ddinbych bolisi recriwtio diogel ac yn cymryd sicrwydd o'r ffaith bod arolygiadau diweddar gan Estyn o ysgolion Sir Ddinbych heb godi unrhyw bryderon ynghylch materion recriwtio. Mae'r Cyngor yn adolygu'r polisi Recriwtio a Dethol yn rheolaidd ac yn cwmpasu egwyddorion diogelu.
- 14 Mae Polisi Recriwtio a Dethol y Cyngor hefyd yn cynnwys darpariaethau recriwtio diogel ar gyfer contractwyr, lle mae contractwyr mewn cysylltiad â dinasyddion agored i niwed. Mae tîm monitro contractau'r Cyngor yn gwirio cydymffurfiaeth contractwyr â darpariaethau recriwtio diogel.

## Mae hyfforddiant diogelu ar waith yn y Cyngor, ond mae bylchau o ran darparu hyfforddiant, yn enwedig ymhlith cynghorwyr ac ysgolion

- 15 Mae hyfforddiant diogelu e-ddysgu gorfodol ar gyfer staff ar waith ar draws y Cyngor. Ers mis Ebrill 2019, mae cofnodion y Cyngor yn nodi bod 88% o staff wedi

<sup>3</sup> Polisi a Chanllawiau Cyngor Sir Ddinbych ynghylch Diogelu Plant ac Oedolion para 7.1.6

[www.denbighshire.gov.uk/en/resident/health-and-social-care/Policy-and-Guidelines-Safeguarding-Children-and-Adults.pdf](http://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/health-and-social-care/Policy-and-Guidelines-Safeguarding-Children-and-Adults.pdf)

cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol. Mae hyn yn cynnwys ffigyrau ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ogystal â hyfforddiant e-ddysgu. Byddai perfformiad y Cyngor yn uwch, ond dim ond 76% o staff ysgolion sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae'r Cyngor wedi adnabod nifer o ysgolion sy'n gyfrifol i raddau helaeth am y perfformiad anfoddhaol hwn ac mae'n parhau'n rymus â'i ymdrechion i fynd i'r afael â'r perfformiad gwael hwn.

- 16 Mae hyfforddiant mewn perthynas â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn orfodol, ac mae cyfradd cwblhau'r hyfforddiant hwnnw ychydig o dan 90% dros flwyddyn wedi i'r hyfforddiant hwnnw gael ei gyflwyno. Mae'n un o ofynion Llywodraeth Cymru bod hyfforddiant ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn orfodol ac mae angen i'r Cyngor sicrhau y cyflawnir cyfradd gydymffurfio o 100%. Unwaith eto, roedd y gyfradd gwblhau ymhlith ysgolion yn waeth, sef 84%.
- 17 Nid yw'r holl gynghorwyr wedi cael hyfforddiant diweddarar ar ddiogelu. Mae'r Cyngor yn disgwyl i gynghorwyr gael hyfforddiant diogelu unwaith ym mhob gweinyddiaeth. Fodd bynnag, ar wahân i sesiynau briffio cynghorwyr, sy'n codi ymwybyddiaeth, nid yw rhai cynghorwyr wedi cael hyfforddiant diogelu ers 2014. Mae materion cydnawsedd ar hyn o bryd rhwng iPads cynghorwyr a phlatform dysgu ar-lein y GIG yn golygu nad yw wedi bod yn bosibl cyflwyno'r modiwl e-ddysgu i'r holl gynghorwyr. Fodd bynnag, mae sesiwn ar Ddiogelu yn yr arfaeth ar gyfer Cyfarfod Briffio gan y Cyngor ar ddechrau mis Mehefin 2019 a bydd sesiwn hyfforddiant diweddarar arall yn cael ei darparu cyn diwedd y flwyddyn.
- 18 Wrth ddefnyddio contractwyr, mae'r Cyngor yn cynnwys darpariaethau o fewn contractau sy'n amodi mai cyfrifoldeb y sefydliad sy'n darparu'r staff yw sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant diogelu. Mae tîm monitro contractau'r Cyngor yn gwirio cydymffurfiaeth contractwyr â'r gofyniad i ddarparu hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff.

## Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad diogelu'n effeithiol

- 19 Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o fesurau perfformiad ar gyfer diogelu corfforaethol yr adroddir arnynt yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r mesurau perfformiad allweddol yn Adroddiad y Cyfarwyddwr yn 2017-18 yn cwmpasu mesurau diogelu ar gyfer plant ac oedolion, megis canran y bobl â chynllun gofal a chymorth sy'n dweud eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am eu gweithiwr penodol yn y gwasanaethau cymdeithasol a chanran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn saith niwrnod. Ar gyfer y rhan fwyaf o wybodaeth allweddol am berfformiad, darparwyd cymhariaeth rhwng perfformiad blynyddol Sir Ddinbych a chyfartaledd Cymru gyfan.
- 20 Mae'r Panel Diogelu Corfforaethol ar gyfer Plant ac Oedolion yn cael gwybodaeth ynghylch trefniadau rheoli perfformiad gwasanaethau unigol, i roi sicrwydd iddynt bod gwasanaethau'n cyflawni eu dyletswyddau ac yn rhoi camau ar waith i ddiogelu oedolion a phlant. Nid yw'r Panel yn gyfrifol am fonitro perfformiad gwasanaethau unigol o ran diogelu; Pennaeth Gwasanaeth unigol a Rheolwr

Diogelu Dynodedig pob gwasanaeth sy'n gyfrifol am hyn. Hwys sy'n ymdrin â materion diogelu plant ac oedolion, gyda chymorth timau rheoli gwasanaethau. Trafodir materion diogelu hefyd yn y sesiynau mewnol blynyddol herio gwasanaethau'r Cyngor a ddelir gan y Cyngor ar gyfer pob un o wasanaethau'r cyngor gan gynnwys gwasanaethau Oedolion a Phlant.

- 21 Yn ystod 2018-19 fe ddirywiodd perfformiad y Cyngor o ran canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn saith niwrnod. Yn 2017-18, 70.2% oedd perfformiad cyfartalog Sir Ddinbych, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru, sef 80.1%. Parhaodd perfformiad i ostwng yn ystod 2018-19 pan amrywiodd o 56% yn chwarter cyntaf y flwyddyn i 68% yn y chwarter olaf. Er bod y Pennaeth Gwasanaeth wedi adrodd ar y dirywiad mewn perfformiad wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau (sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) ac wrth y Prif Weithredwr nid adroddwyd arno wrth y Cabinet na chynghorwyr eraill. Ar ben hynny, ni chafodd yr wybodaeth ei chynnwys yn yr wybodaeth a ddarparwyd, ym mis Ionawr 2019, i gyfarfod herio gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau oedolion.
- 22 Mae'r Cyngor yn crybwyll diogelu ddwywaith yn yr adroddiad blynyddol ar berfformiad ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych 2017-18, ond nid yw'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad o ran diogelu. Bwriad swyddogion yw y bydd yr adroddiad blynyddol nesaf ar berfformiad y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth allweddol am berfformiad o ran diogelu yn 2018-19.
- 23 Mae aelodau o bwyllgorau craffu'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth am ddiogelu bob blwyddyn. Maent yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r adroddiad diogelu Blynyddol. Er bod hyn yn rhoi cyfle i gynghorwyr graffu a herio'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar faterion diogelu corfforaethol, mae eu gallu i wneud hyn yn gyfyngedig gan nad yw'r adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am berfformiad, dim ond 'penawdau' lefel uchel. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ni chafwyd unrhyw adroddiadau perfformiad eraill ar faterion diogelu corfforaethol i'r Cabinet na'r pwyllgorau craffu.
- 24 Ar adeg ein gwaith maes ym Mai 2019, nid oedd Cynghorwyr y gwnaethom ni gyfwrdd â hwy yn ymwybodol o'r perfformiad yn 2018-19 o ran diogelu oedolion gan gynnwys canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn saith niwrnod. Yr adroddiad cyntaf i'r Aelodau ar berfformiad diogelu yn 2018-19 oedd Adroddiad Blynyddol 2018-19 drafft y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a drafodwyd yn y Cyfarfod Craffu ar Berfformiad ym Mehefin 2019 ac mae'n cynnwys, er enghraifft, y wybodaeth mai dim ond 68 y cant o ymholiadau o ran amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn saith diwrnod.
- 25 Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn c'ynnal adolygiadau rheolaidd o ddiogelu. Mae adroddiadau Archwilio Mewnol yn cael eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Rhoddodd adroddiad dilynol diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol yn 2018 sgôr sicrwydd canolig i drefniadau'r Cyngor.

# Atodiad 1

## Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu a gyhoeddwyd yn 2015

Arddangosyn 2: cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion

Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol	Aseiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Sir Ddinbych yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol
<p><b>A1</b> Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau.</li><li>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a</li><li>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.</li></ul>	<p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</p> <p>Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn glir ynglŷn â'r mater hwn, - y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau (sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd â'r cyfrifoldeb terfynol ac unigol am faterion diogelu.</p> <p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</p> <p>Mae gan y Cyngor Gyngorydd Arweiniol ar gyfer Safonau Corfforaethol sy'n aelod sefydlog o'r Panel Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion</p> <p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</p> <p>Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, sy'n glir o ran priodolau a chyfrifoldebau. Dywedodd y Cyngor wrthym fod gwybodaeth o'r fath yn cael ei lledaenu trwy negeseuon e-bost, y fewnrwyd a'r Rheolwyr Diogelu Dynodedig.</p>
<p><b>A2</b> Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor.</p>	<p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</p> <p>Ceir polisi diogelu corfforaethol cynhwysfawr, sydd wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor a gwefan y Cyngor.</p>

Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol	Aseiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Sir Ddinbych yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol
<p><b>A3</b> Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;</li> <li>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a</li> <li>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o contract neu gytundeb lefel gwasanaeth.</li> </ul>	<p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith</p> <p>Mae polisi'r Cyngor ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cwmpasu holl gyflogeion y Cyngor. Mae'r polisi ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn gymwys i weithwyr asiantaeth, contractwyr, gwirfoddolwyr a lleoliadau myfyrwyr. Mae gan y Cyngor Bolisi Recriwtio a Dethol gydag adran ar recriwtio diogel.</p> <p>Mae gan y Cyngor TGCh foddhaol ar gyfer cofnodi'r wybodaeth hon.</p> <p>Mae'r Polisi ar Wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gymwys i gontractwyr a gwirfoddolwyr ac mae'r Cyngor wedi rhoi enghreifftiau inni sy'n nodi bod rhaid i'r darparwr sicrhau bod y broses o recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn gadarn ac yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.</p>
<p><b>A4</b> Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymddriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;</li> <li>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a</li> <li>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu.</li> </ul>	<p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</p> <p>Mae hyfforddiant diogelu sylfaenol yn orfodol i'r holl staff.</p> <p>Mae gwybodaeth am hyfforddiant diogelu'n cael ei chofnodi a'i monitro trwy systemau TGCh ac mae data ar berfformiad ar gael yn rhwydd i'r Cyngor ar gais.</p> <p>Mae gan y Cyngor ddarpariaethau cytundebol sy'n amodi mai cyfrifoldeb y sefydliad sy'n darparu'r staff yw sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant diogelu.</p>

Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol	Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Sir Ddinbych yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol
<p><b>A6<sup>4</sup></b> Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• meincnodi a chymharu ag eraill;</li> <li>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;</li> <li>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;</li> <li>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a</li> <li>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor.</li> </ul>	<p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn adrodd ar wybodaeth am fesurau perfformiad diogelu mewn perthynas â hyfforddiant diogelu a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae adroddiadau blynyddol ar berfformiad i'r Cabinet yn cynnwys mesurau perfformiad sy'n ymwneud â diogelu. Fodd bynnag, dylai Cabinet y Cyngor gael gwybodaeth am berfformiad yn amlach i'w alluogi i werthuso gwybodaeth allweddol am berfformiad mewn perthynas â diogelu. Mae ar y Cabinet angen y set lawn o wybodaeth am berfformiad. Yn arbennig dylid cyfeirio at feysydd lle mae perfformiad o ran diogelu'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru neu lle nad yw gofynion diogelu gorfodol gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hateb.</p> <p>Mae Adroddiadau Archwilio Mewnol a'r holl Adroddiadau Archwilio Allanol yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.</p> <p>Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod digon o ddata perfformiad seiliedig ar wasanaethau'n cael ei gyflwyno i bwyllgorau craffu na bod gwybodaeth feincnodi ddigonol yn cael ei darparu ar gyfer pwyllgorau craffu.</p>
<p><b>A7</b> Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor.</p>	<p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried diogelu corfforaethol yn ystod 2018.</p>
<p><b>A8</b> Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor.</p>	<p>Argymhelliad wedi'i roi ar waith.</p> <p>Mae diogelu wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac ar yr holl Gofrestrau Risgiau Lefel Gwasanaeth.</p>

<sup>4</sup> Roedd argymhelliad 5 wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru yn hytrach na chynghorau felly nid yw wedi'i gynnwys yn y rhestr uchod.



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)



**Adroddiad i'r** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod** 20 Tachwedd 2019

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Bobby Feeley / Phil Gilroy

**Awdur yr Adroddiad** David Soley

**Teitl** Arolygiaeth Gofal Cymru - Arolygu Gwasanaethau Oedolion Hŷn

### 1.0 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Crynodeb o adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru i'w Arolygiad o Wasanaethau Oedolion Hŷn Cyngor Sir Ddinbych (CSDd); canfyddiadau allweddol a chamau gweithredu cysylltiedig.

### 2.0 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ymwneud ag arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Oedolion Hŷn CSDd; canfyddiadau allweddol a chamau cysylltiol.

### 3.0 Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried ac yn gwneud sylwadau fel sy'n briodol ar yr adroddiad hwn, ac yn benodol y camau gweithredu ynddo.

### 4.0 Manylion yr adroddiad

- 4.1 Ym mis Mai 2019, arweiniodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn CSDd fel rhan o adolygiad cenedlaethol i weld pa mor dda mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion cynyddol, ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- 4.2 Adolygodd y tîm arolygu 60 o ffeiliau achos unigol a chyfweld â rheolwyr, staff ac Aelodau Etholedig CSDd. Fe wnaethon nhw hefyd gyfweld â phartneriaid a budd-ddeiliaid allweddol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a chwrdd â dinasyddion a gofalwyr sy'n defnyddio gwasanaethau. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar brofiadau pobl a'r canlyniadau ar eu taith drwy wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- 4.3 Caiff canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru eu rhannu'n **'Gryfderau'** a **'Blaenoriaethau ar gyfer gwella'**, ac maen nhw wedi'u rhestru o dan 4 pennawd:
- i. Lles
  - ii. Pobl – llais a dewis
  - iii. Partneriaeth ac integreiddio - cyd-gynhyrchu
  - iv. Atal ac ymyrryd yn gynnar

#### 4.4 Lles – Cryfderau

- *Gall yr awdurdod lleol ddangos sut y mae wedi croesawu lles ac yn gweithio tuag at sicrhau bod penderfyniadau polisi a chyllideb yn canolbwyntio ar wella lles dinasyddion yng Nghyngor Sir Dinbych. Mae'n deall y cysylltiad rhwng hyrwyddo annibyniaeth, canlyniadau gwell i bobl a gwasanaethau cynaliadwy.*
- *Gall pobl fod yn hyderus iawn bod yr awdurdod lleol yn cydnabod mai oedolion yw'r bobl gorau i feirniadu eu lles eu hunain.*

#### 4.5 Lles - Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- *Rhaid i uwch reolwyr sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod yn bartner cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol diogelu sy'n gweithio i'w hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.*  
Roedd hwn yn fater a nodwyd eisoes gan reolwyr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn dilyn gweithredu 'Archwiliadau Ffeiliau Achos Diogelu' ym mis Medi 2018. Mae rheolwyr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn hyderus y bydd arolygwyr Arolygiaeth Gofal Cymru yn dod o hyd i welliannau priodol pan fyddant yn dychwelyd i ymweld â CSDd ym mis Ionawr 2020 i gynnal Archwiliad Ymarfer Diogelu.

#### 4.6 Pobl – llais a dewis – Cryfderau

- *Mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth ddigonol o sut y gall pobl gael eu grymuso gan wybodaeth, cyngor a chymorth a thrwy fod yn rhan o ddylunio a gweithredu gwasanaethau.*
- *Mae gan ymarferwyr ymreolaeth a chyfle i gyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad gwasanaethau.*
- *Mae lleisiau eiriolwyr anffurfiol yn cael eu clywed a'u cofnodi'n rheolaidd mewn llawer o nodiadau ffeil. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen iddo wella hygyrchedd i eiriolaeth ffurfiol.*
- *Mae asesiadau galluedd meddyliol yn ddigonol. Mae'r awdurdod lleol eisoes wedi rhoi mesurau ar waith i lywio gwelliannau pellach wrth gofnodi.*

#### 4.7 Pobl – llais a dewis – Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- *Cydymffurfiaeth agosach gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) o ran:*
  - Prydlondeb, cyfathrebu a chanolbwyntio ar brosesau diogelu.*  
Mae hyn yn ymwneud â pherfformiad CSDd yn erbyn y targed 7 diwrnod ar gyfer cwblhau ymholiadau Diogelu, sy'n tua 65% ar gyfartaledd yn erbyn cyfartaledd Cymreig o tua 85%. Mae cyflwyno 'Archwiliadau Ffeiliau Achos Diogelu' wedi galluogi i Wasanaethau Cymorth Cymunedol nodi a gweithredu newidiadau mewn ymarfer. Yn ystod 2 chwarter cyntaf eleni mae sgôr perfformiad CSDd yn 89.5% ar gyfartaledd.
  - Mae hawliau diamwys i ganlyniadau asesiadau yn cael eu cynnal waeth beth fo adnoddau ariannol yr unigolyn.*

Mae hyn yn ymwneud â dadl barhaus rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru a mwyafrif Awdurdodau Lleol Cymru ac mae wedi ymddangos mewn arolygiadau lleol eraill. Mae'r awdurdodau lleol yn credu bod meini prawf cymhwysedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn seiliedig ar asedau, ac felly'n ystyried ystod dinasyddion o'r adnoddau cymunedol a phersonol sydd ar gael iddyn nhw wrth

bennu cymhwysedd ar gyfer cynllun gofal a chymorth wedi'i reoli. Ymddengys bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn dehongli'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel un sy'n ei gwneud yn ofynnol i ALLau ariannu'r holl ofal a chymorth hyd yn oed os yw dinasyddion yn gallu, ac yn dewis, ei ariannu eu hunain. Maen nhw'n ymddangos i fod wedi cymysgu'r meini prawf cymhwysedd ag asesiad ariannol ffurfiol, a gynhelir mewn gwirionedd ar ôl cytuno ar gynllun gofal a chymorth wedi'i reoli.

*iii. Rhaid i'r angen i gynnal asesiad mwy arbenigol beidio ag atal nac oedi darpariaeth gwasanaethau priodol.*

Mae hyn yn ymwneud â nifer gyfyngedig o achosion lle cafodd oedi ei olrhain i staff CSDd a oedd yn aros i asiantaethau partner gynnal asesiadau arbenigol. Mae hon yn her barhaus ac rydym mewn trafodaethau gydag Asiantaethau Partner i gytuno ar strategaethau a fydd yn ein galluogi i osgoi oedi diangen yn y dyfodol.

*iv. Cofnodi canlyniad yr asesiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad a roddir ar yr offeryn asesu a chymhwyster. Ymhob achos rhaid i gofnod yr asesiad gynnwys esboniad o sut y bydd y camau gweithredu a argymhellir yn helpu i gyflawni'r canlyniad a nodwyd neu fel arall ddiwallu anghenion a nodwyd gan yr asesiad.*

Mae hyn yn ymwneud â heriau gyda'r cynllun Gofal a Chefnogaeth Integredig a gynhwysir yn PARIS, a nodwyd i ddechrau ym mis Hydref 2018 drwy archwilio ffeiliau achos. Mae grŵp tasg a gorffen, gan gynnwys rheolwyr a staff TGCh a rheng flaen yn adolygu'r cynllun gofal a chymorth integredig i wella'r broses gofnodi ar hyn o bryd.

#### 4.6 Partneriaeth ac integreiddio – cydgynhyrchu - Cryfderau

- *Mae staff wedi eu grymuso i gyd-gynhyrchu atebion creadigol sy'n diwallu'r deilliannau y mae'r bobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, wedi eu dynodi drostynt eu hunain.*
- *Mae darpariaeth gwasanaeth yn seiliedig ar yr uchelgais i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau trigolion Sir Ddinbych. Mae enghreifftiau da o reolwyr ar bob lefel yn defnyddio eu menter a'u sgiliau arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau mewn diwylliant ac arfer gweithredol.*
- *Dangosir parodrwydd i roi cynnig ar ddulliau newydd a gweithio gyda phartneriaid allweddol drwy ddatblygu Un Pwynt Mynediad, Pwyntiau Siarad, Llyw-wyr Cymunedol a Thimau Adnoddau Cymunedol.*

#### 4.7 Partneriaeth ac integreiddio – cydgynhyrchu – Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- *Mae angen i reolwyr strategol sicrhau y caiff gwasanaethau ac adnoddau eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.*  
Yn ddiweddar, gostyngwyd strwythur uwch reoli Gwasanaethau Cymorth Cymunedol gan un rheolwr gwasanaeth ac mae'r strwythur rheoli tîm yn cael ei adolygu yng ngoleuni gweithredu timau integredig. Mae Paneli Adolygu

Cymheiriaid Amlddisgyblaethol bellach yn darparu gweithdrefnau craffu cadarn ar gynlluniau gofal a chymorth i sicrhau eu bod yn seiliedig ar gryfderau ac yn defnyddio'r holl gymorth cymunedol sydd ar gael cyn ystyried gwasanaethau a ariennir gan y cyngor.

- *Mae angen sicrhau'r budd mwyaf posibl o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod drwy wybodaeth broffesiynol a rennir, her gadarn, sylw i fanylion a dolenni adborth i systemau sicrhau ansawdd.*

Er na ddaethon nhw o hyd i unrhyw arwydd bod dinasyddion yn cael eu diogelu neu eu hesgeuluso yn amhriodol, mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn credu ei fod wedi canfod rhywfaint o dystiolaeth o ddiffyg her a

monitro parhaus o ran partneriaid y GIG yn ystod ymyriadau diogelu. Rydym wedi cymryd sylw o'r adborth hwn a, lle y bo'n briodol, byddwn yn herio ac yn monitro partneriaid y GIG yn rymus, gan sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi'n gywir mewn ffeiliau achos dinasyddion.

#### 4.8 Atal ac ymyrraeth gynnar - Cryfderau

- *Mae Un Pwynt Mynediad a 'Pwyntiau Siarad' yn dangos ymrwymiad yr awdurdod lleol a phartneriaid statudol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl er mwyn iddyn nhw allu rheoli eu bywyd o ddydd i ddydd a chyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.*
- *Mae atal neu ohirio datblygiad anghenion gofal a chymorth yn ochri'n agos â chyfrifoldebau awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys tai, hamdden ac iechyd yr amgylchedd.*

#### 4.9 Atal ac ymyrryd yn fuan – Blaenoriaethau ar gyfer gwella

- *Mae angen i'r awdurdod lleol adolygu Un Pwynt Mynediad a Phwyntiau Siarad gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth a chynngor prydlon a chymesur, yn ogystal â mynediad at ofal a chefnogaeth.*  
Roedd Pwyntiau Siarad yn ddarostyngedig i adolygiad allanol yn 2019 a oedd yn cynnwys partneriaid sector gwirfoddol a statudol, yn ogystal â dinasyddion a gofalwyr. Cafodd Un Pwynt Mynediad ei adolygu'n llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn 2017 ers iddo fod o dan adolygiad parhaus gan fod y gofynion yn newid oherwydd bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn integreiddio i Dimau Adnoddau Cymunedol.
- *Mae diffyg argaeledd gwasanaethau gofal cartref yn golygu nad yw rhai pobl yn cael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Mae hwn wedi bod yn fater hirsefydlog mewn rhai rhannau o'r sir ac mae angen gweithredu i atal analluedd gofalwyr ymhellach, a'r pwysau cynyddol ar staff mewn gwasanaethau ailalluogi a gwasanaethau iechyd cymunedol.*  
Yn dilyn tendr aflwyddiannus am wasanaethau mewn lleoliadau penodol, cyfarfu'r Prif reolwr a'r prif gomisiynydd â'r holl brif ddarparwyr gofal cartref i gael eu barn am heriau allweddol. Dywedodd pob un mai recriwtio a chadw staff oedd eu her fwyaf, a chredai'r mwyafrif fod hyn yn waeth oherwydd y gofynion newydd o ran hyfforddi a chofrestru a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r materion hyn yn benodol i Sir Ddinbych, maen nhw'n gyffredin ar draws Cymru a'r DU. Mae

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol bellach yn cwrdd â darparwyr i gytuno ar fentrau i'w helpu i recriwtio a chadw staff.

## **5.0 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru yn darparu tystiolaeth sylweddol o ymrwymiad Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i gefnogi **Cymunedau Gwydn**; gan weithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a gwytnwch, hybu iechyd a lles ac annog pobl i aros mor annibynnol â phosibl.

## **6.0 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol

## **7.0 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

7.1 Mae mentrau Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi'u hanelu at wella Lles, cynyddu llais a dewis, cefnogi Partneriaethau, integreiddio a chydgyhyrchu oll o dan fgythiad llai o gyllid, yn ogystal â llai o alw am ofal cymdeithasol. Efallai y bydd gostyngiadau pellach mewn cyllid yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ganolbwyntio'n llwyr ar gyfrifoldebau statudol ar draul gwasanaethau y gwyddys eu bod yn lleihau'r galw yn y dyfodol.

7.2 Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn ceisio lliniaru toriadau cyllid drwy fabwysiadu dewisiadau amgen mwy effeithlon ac effeithiol yn y gymuned yn lle gofal a chymorth traddodiadol, ond er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus mae angen amser a buddsoddiad parhaus.

## **8.0 Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Does dim angen penderfyniad

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Inspection of Older Adult Services Denbighshire County Council

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.  
This document is also available in Welsh.



## Contents

Background	4
Prevention and promotion of independence for older adults (over 65) living in the community	5
Strengths and Priorities for Improvement	6
Well-being	9
People – voice and choice	12
Partnership and integration - Co-operation drives service delivery	16
Prevention and early intervention	20
Method	23
Welsh Language	23
Acknowledgments	23

## Background

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (SSWBA) has been in force for almost three years. The Act is the legal framework that brings together and modernises social services law in Wales.

The Act while being a huge challenge has been widely welcomed across the sector as a force for good, bringing substantial and considered opportunities for change at a time of increasing demand, changing expectations and reduced resources.

The Act imposes duties on local authorities, health boards and Welsh Ministers that requires them to work to promote the well-being of those who need care and support, and carers who need support.

The principles of the act are:

- Support for people who have care and support needs to achieve **well-being**.
- **People** are at the heart of the new system by giving them an equal say in the support they receive.
- **Partnership and co-operation** drives service delivery.
- Services will promote the **prevention** of escalating need and the right help is available at the right time.

Welsh Government has followed up the SSWBA with 'A Healthier Wales'. A strategic plan developed in response to a Parliamentary Review of the Long Term Future of Health and Social Care.

A Healthier Wales explains the ambition of bringing health and social care services together, so that they are designed and delivered around the needs and preferences of individuals, with a much greater emphasis on keeping people healthy and promoting well-being. A Healthier Wales describes how a seamless whole system approach to health and social care should be seamlessly co-ordinated.

Ministers have recorded the importance of having confidence and ambition in the sector to deliver results. In response we have developed our approach to inspection with a focus on collaboration and strengths with the intention of supporting innovation and driving improvement.

This inspection was led by Care Inspectorate Wales (CIW) and delivered in collaboration with Healthcare Inspectorate Wales (HIW).

## **Prevention and promotion of independence for older adults (over 65) living in the community**

The purpose of this inspection was to explore how well the local authority with its partners is promoting independence and preventing escalating needs for older adults. The inspection identified where progress has been made in giving effect to the SSWBA and where improvements are required.

We (CIW and HIW) focused upon the experience of older adults as they come into contact with and move through social care services up until the time they may need to enter a care home. We also considered the times when they experienced, or would have benefited from, joint working between Local Authority services and Health Board services.

We evaluated the quality of the service within the parameters of the four underpinning principles of the Social Services and Well-being Act (as listed above) and considered their application in practice at three levels:

- Individual
- Operational
- Strategic

We are always mindful of expectations as outlined in the SSWBA codes of practice:

- 'What matters' – outcome focused
- Impact –focus on outcome not process
- Rights based approach – Mental Capacity Act
- Control – relationships
- Timely
- Accessible
- Proportionate – sustainability
- Strengths based
- Preventative
- Well planned and managed
- Well led
- Efficient and effective / Prudent healthcare
- Positive risk and defensible practice
- The combination of evidence-based practice grounded in knowledge, with finely balanced professional judgement

## Strengths and Priorities for Improvement

CIW and HIW draw the local authority and local health board's attention to strengths and areas for improvement. We expect strengths to be acknowledged, celebrated and used as opportunities, upon which to build. We expect priorities for improvement to result in specific actions by the local authority and local health board to deliver improved outcomes for people in the local authority area in line with requirements of legislation and good practice guidance.

<b>Well-being</b>	
<b>Strengths</b>	<p>The local authority is able to demonstrate how it has embraced wellbeing and works towards ensuring policy and budget decisions are focused upon improving the wellbeing of citizens in Denbighshire County Council (Denbighshire CC). It understands the link between promoting independence, better outcomes for people and sustainable services.</p> <p>People can be increasingly confident the local authority recognises adults are the best people to judge their own wellbeing.</p>
<b>Priorities for improvement</b>	<p>Senior managers must ensure individuals feel they are an equal partner in their relationship with safeguarding professionals who work to protect them from abuse and neglect.</p>
<b>People – voice and choice</b>	
<b>Strengths</b>	<p>The local authority has an adequate understanding of how people can be empowered by information, advice and assistance and by being involved in the design and operation of services.</p> <p>Practitioners have autonomy and opportunity to make a positive contribution to the development of services.</p> <p>Voices of informal advocates are regularly heard and recorded in many file notes. The local authority recognises it needs to improve access to formal advocacy.</p> <p>Mental capacity assessments are adequate. The local authority has already put measures in place to drive further improvements in recording.</p>
<b>Priorities for improvement</b>	<p>The benefits of a strengths based approach to enabling people to have their voices heard needs to be improved by closer compliance with the SSWBA in respect of the following areas:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Timeliness, communication and focus of safeguarding processes;</li> <li>• unambiguous rights to outcomes of assessments being upheld regardless of the individual's financial resources;</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>the need for a more specialist assessment to be undertaken must not prevent or delay appropriate services being provided;</li> <li>recording the outcome of the assessment and any advice or guidance given on the assessment and eligibility tool. In all cases the record of the assessment must include an explanation of how the recommended action will help meet the identified outcome or otherwise meet needs identified by the assessment.</li> </ul>
<b>Partnerships, integration and co-production drives service delivery</b>	
<b>Strengths</b>	<p>Staff are empowered to co-produce creative solutions which meet self identified outcomes with people who need care and support and carers who need support.</p> <p>Service delivery is driven by an ambition to make a positive difference to the lives of Denbighshire residents. There are good examples of managers at all levels using their initiative and personal leadership skills to drive improvement in operational culture and practice.</p> <p>Willingness to try new approaches and work with key partners is demonstrated through the development of a SPoA (Single Point of Access), Talking Points, Community Navigators and Community Resource Teams (CRTs).</p>
<b>Priorities for Improvement</b>	<p>Strategic managers need to ensure services and resources are used in the most effective and efficient way.</p> <p>The benefits of professionals working together to safeguard people from abuse and neglect needs to be maximised through shared professional knowledge, robust challenge, attention to detail and feedback loops into quality assurance systems.</p>
<b>Prevention and early intervention</b>	
<b>Strengths</b>	<p>The SPoA and 'Talking Points' demonstrate the local authority and statutory partners commitment to providing people with the information, advice and assistance they need to take control over their day to day lives and achieve what matters to them.</p> <p>Preventing or delaying the development of care and support needs is closely aligned to other local authority responsibilities, including housing, leisure and environmental health.</p>
<b>Priorities for improvement</b>	<p>The local authority need to review SPoA and Talking Points with partners to ensure people receive timely and proportionate information and advice and access to care and support.</p> <p>The lack of availability of domiciliary care services is resulting in some people not receiving the care and support they need. This</p>

	has been a long standing issue in some parts of the county and requires action to prevent further carer breakdown and increasing pressure on staff in reablement services and community health services.
--	--

## 1. Well-being

**Findings:** Older adults in Denbighshire can be increasingly confident the local authority is making good progress in demonstrating they work on the presumption the adult is best placed to judge their own wellbeing.

Most practitioners welcome opportunities to be creative and work towards individual strengths based solutions that seek to promote the wellbeing of people who need care and support and carers who need support.

Positive practice in social services is underpinned by management support, and a range of tools and training which build staff confidence. Despite the pressures inherent in the social care system most staff we spoke to and responded to our questionnaire said they feel supported in their work.

